
| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD |
| **DYDDIAD** | 25 Mawrth 2011 |
| **TEITL** | Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd |
| **PWRPAS** | Cyflwyno gwybodaeth am gylch gorchwyl Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a'i sefydlu fel gweithgor o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd |
| **ARGYMHELLIAD** | Sefydlu Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a chytuno ar ei aelodaeth |
| **AWDUR** | Nia Davies, Rheolwr Polisi Cynllunio, Cyngor Gwynedd |

## 1. Cefndir

1.1 Mae'r siart isod, sy'n dod allan o'r "Llawllyfr ar Gynlluniau Datblygu" gan Lywodraeth y Cynulliad, yn adnabod y gwaith sydd angen ei wneud yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd:



D.5. Dylid paratoi'r cynllun, cynnal yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r ymgynghoriad mewn modd integredig.

1.2 Nod y system CDLl newydd yw:

- llywio'r gwaith o lunio CDLl drwy'r Arfarniad o Gynaliadwyedd, gan ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol, i ddwyn ynghyd tystiolaeth ac ystyried goblygiadau hirdymor opsiynau'r strategaeth a pholisïau mewn CDLlau;
- selio'r gwaith o lunio CDLl ar gysylltu a chymunedau'n effeithiol, er mwyn ystyried ystod eang o safbwyntiau, gyda'r nod o sicrhau consensws ehangach ynghylch strategaeth a pholisïau CDLlau;
- sicrhau integreiddiad polisïau drwy lunio CDLlau sy'n fewnol gyson ac a integreiddir â'r prif bolisïau a strategaethau eraill ar lefel genedlaethol, lefel ranbarthol a lefel leol (gan osgoi ailadrodd diangen);
- sicrhau dull cyflymach a mwy ymatebol o lunio cynlluniau, gan gyhoeddi amserlenni ar gyfer gwaith paratoi, llai o achosion o ailadrodd y cynllun cyn ei fabwysiadu, a gwaith monitro ac adolygu strategol rheolaidd er mwyn adlewyrchu amgylchiadau newidiol Cymru gyfoes yn well; a
- llunio cynlluniau sy'n fwy strategol, cryno a nodedig wrth greu strategaeth ar gyfer sut y bydd ardal yn datblygu ac yn newid, ar sail dealltwriaeth gadarn o ryngddibyniaeth lleoedd (o fewn ac ar draws ffiniau gweinyddol) a hyrwyddwyr newid.

1.3 Pwrpas yr Archwiliad Cyhoeddus fydd sefydlu os yw'r CDLl yn un "cadarn", h.y. yn cydymffurfio gyda 10 prawf o gadernid, a dod i gasgliad os y gellir ei fabwysiadu'n ddiogel. Fe fydd argymhellion yr Arolygydd a fydd yn cynnal yr Archwiliad Cyhoeddus yn rhai rhwymol, h.y. ni fydd gan yr Awdurdod hawl i wyro oddi wrthynt.

## 2 Craffu a gwneud penderfyniadau

2.1 Yn gyntaf, mae'n ofynnol i'r Cyngor ddrafftio Cytundeb Cyflawni. Ochr yn ochr a'r broses o baratoi'r Cytundeb Cyflawni ac ar ôl ei gwblhau bydd yn rhaid casglu gwybodaeth amrywiol a thrylwyr am yr economi, y gymdeithas a'r amgylchedd. Yr wybodaeth yma fydd y sail ffeithiol i'r CDLl ar y Cyd ac yn fodd o sicrhau ei fod yn 'gadarn'. Mae'n rhaid i'r CDLl ar y Cyd ofalu fod y datblygiadau'n gynaliadwy yn economiadd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol. Bydd yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd a fydd angen ei pharatoi ochr yn ochr a'r CDLl ar y Cyd yn dangos sut y mae'r rhain wedi cael eu hystyried.

2.2 Mae'r tabl yn Atodiad 1 i'r adroddiad yma'n adnabod cyfrifoldebau gwahanol bwyllgorau o ran ystyried a chymeradwyo unrhyw ddogfennau allweddol sy'n gysylltiedig a chamau statudol y broses paratoi'r CDLl ar y Cyd. Y rhain fydd y dogfennau a gaiff eu darparu a'u cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus statudol.

2.3 Mae yna nifer o gamau allweddol pryd y bydd **cyfranogiad** gan Gynghorwyr, y cyhoedd a budd-ddeiliaid eraill yn hanfodol wrth fynd ati i lunio'r canlynol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus:

| | |
|---|---|
| Dogfennau Cyn- Adneuo'r CDLl ar y Cyd | Ni fydd hwn yn ddrafft llawn o'r CDLl ar y Cyd, ond fe fyddant yn amlinellu'r prif amcanion a'r hoff strategaeth ar gyfer tyfiant neu newid gan gynnwys dewisiadau ar gyfer datblygiadau mawr. |
| Cynllun Adnau | Cynllun drafft llawn o'r CDLl ar y Cyd |

2.4 Mae'n bwysig fod y broses fanwl o baratoi'r CDLl ar y Cyd yn cael ei hwyluso, yn enwedig o gofio'r pwysigrwydd o roi cyfle i'r cyhoedd a budd-ddeiliaid eraill ddylanwadu ar ei gynnwys, ac o gofio'r terfyniadau amser a fydd angen gweithio o'u mhewn. Er mwyn hwyluso'r broses mae gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yr hawl i "benodi unrhyw banel neu weithgor er mwyn bod yn gymorth i'r Pwyllgor wrth ei waith" (rhan C1 (vii) o'r Gytundeb rhwng Cyngor Sir Ynys Mon a Chyngor Gwynedd). Awgrymir fod yna Banel o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cael ei sefydlu. Bydd gan y Panel rol bwysig i'w chwarae yn y gwaith o gyd-gordio'r prif elfennau gwaith.

2.5 Argymhellir fod y Panel yn cynnwys 6 aelod o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd – 3 aelod o Fon a 3 o Wynedd.

2.6 Mae Atodiad 2 yn awgrymu beth fyddai dyletswyddau'r Panel.

**3 Argymhelliad**

3.1 Bod Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cael ei sefydlu a bod ei aelodaeth fel a welir ym mharagraff 2.5 uchod.

**ATODIAD 1**

**SYNIAD O ADRODDIADAU A PHENDERFYNIADAU CYFNODAU ALLWEDDOL Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL**

| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **DARPARU CYTUNDEB** | **DEWISIADAU STRATEGOL A'R STRATEGAETH DDEWISOL** | **CYNLLUN ADNAU** | **ADRODD AR YMATEBION YMGYNGHORI AR Y CYNLLUN ADNAU** | **ADRODDIAD AROLYGYDD CYNLLUNIO** | **MABWYSIADU'R CYNLLUN** |
| **Pwyllgorau Craffu Gwynedd a Môn** | **Craffu** | **Craffu** | **Craffu** | | | |
| **Bwrdd Cyngor Gwynedd a Phwyllgor Gwaith Cyngor Môn** | **Argymell cytundeb** | **Cytuno** | | | | |
| **Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd*** | **Cynghori** | **Cynghori** | **Cytuno** | **Cytuno** | **Derbyn**** | |
| **Cynghorau Llawn Gwynedd a Môn** | **Cytuno** | | | | | **Mabwysiadu** |

***Bydd Aelodau o Awdurdodau Cynllunio Lleol Gwynedd a Môn ar y Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ac ar y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd***
***** Mae Adroddiad yr Arolygydd Cynllunio'n derfynol***

**ATODIAD 2**

**Panel y CDLl ar y Cyd – Cylch Gorchwyl**

**Prif Bwrpas**

Bydd Panel y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar y Cyd yn ystyried a rhoi barn ar ddogfennau canolraddol, ac yn gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar sail casgliadau cyfnodau cyfranogiad cyhoeddus neu ymgynghoriadau cyhoeddus er mwyn cadw at yr amserlen yn y Cytundeb Cyflawni.

**Amcanion**

Bydd Panel y CDLl ar y Cyd yn:

- Ystyried dogfennau drafft adeg camau canolraddol yn y broses paratoi'r CDLl ar y Cyd er mwyn adnabod dewisiadau neu faterion eraill i'w cynnwys yn y dogfennau drafft cyn iddynt gael eu cyhoeddi fel sail i ennyn trafodaeth a chyfranogiad cyhoeddus amdanynt, e.e. gweledigaeth y CDLl ar y Cyd, strategaethau amgen ar gyfer ardal y CDLl ar y Cyd, ystyriaeth o'r adroddiad scopio drafft i'r Asesiad Cynaladwyedd, yn unol a'r Cynllun Cynnwys Cymunedol sydd yn y Cytundeb Cyflawni.
- Derbyn, a chymryd cyfrif o'r sylwadau gan y cyhoedd ac unrhyw grŵp/ fforwm budd-ddeiliaid yn ystod cyfnodau cyfranogiad cyhoeddus neu ymgynghoriad statudol cyhoeddus.
- Cyflwyno argymhellion i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn seiliedig ar y dystiolaeth gyflwynnir yn ystod cyfnodau cyfranogiad cyhoeddus neu ymgynghoriad statudol cyhoeddus yn ystod y broses o baratoi'r cynllun.

**Mandad**

- Bod yn grŵp mewnol o Aelodau Etholedig.
- Bod yn weithgor gweithredol, gyda swyddogaeth o hwyluso'r gwaith o greu consensws ar faterion allweddol.

**Cyfansoddiad**

Bydd y Panel yn cynnwys 6 o Aelodau Etholedig o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (3 o Fon a 3 o Wynedd)

- teitl pob Aelod Etholedig (i'w gwblhau ar 25/3/11)

**Cadeirydd ac Is-gadeirydd**

Bydd Aelodau Etholedig yn cael eu penodi yn ystod cyfarfod cyntaf Panel y CDLl ar y Cyd.

**Cworwm**

Cydnabyddir na fydd pob Aelod sydd wedi'u hadnabod ar gael i fynychu pob cyfarfod a gynhelir yn ystod y broses. Fodd bynnag, er mwyn i Gyfarfod o Banel y CDLl ar y Cyd gael ei gynnal, fe ddylid cael cworwm o bedwar Aelod Etholedig.

**Amledd**

Bydd Panel y CDLl ar y Cyd yn cyfarfod yn ôl yr angen er mwyn rhoi cyngor yn ystod y camau allweddol yn y broses o baratoi'r Cynllun. Er mwyn cynorthwyo'r Aelodau yn y grŵp, bydd dyddiadau'r cyfarfodydd hyn yn cael eu sefydlu gan roi cymaint o rybudd â phosib.

**Rhaglenni**

Rheolwr Polisi (Cynllunio) o'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd fydd yn gyfrifol am gytuno ar y rhaglen mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Gwasanaeth Amgylcheddol (Cyngor Gwynedd) a Chadeirydd y Panel.

Bydd Aelodau'r Panel yn derbyn yr holl bapurau pum niwrnod cyn cyfarfodydd.

**Mecanwaith Adrodd**

Bydd cofnodion ac argymhellion y Panel CDLl yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd. .